# Cyngor Cymuned Llanystumdwy

**Cofnodion Rhaglen waith y Cyngor - nos Iau, 3ydd o Fawrth 2022 drwy Zoom yn brydlon am 8.15 o'r gloch.**

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg, ac roedd yn bosib cael mynediad i'r cyfarfod drwy gysylltu ar ebost gyda'r Clerc.

**Yn bresennol** drwy 'Zoom': Y Cynghorwyr Tegid Jones (Cadeirydd), Anwen Jones, Thomas Prys Jones, Trefor Wyn Jones, Naomi Jones, Aled Lloyd Evans, Darren Morley, Angela Williams, Margaret Griffith, Ceri Jones, William Ifor Hughes, Sian Angharad Parry a'r Clerc.

1. **Ymddiheuriadau**: Cynghorwyr Gareth O.Davies, Aled Davies, a Sion Aled Jones.

2. Cyflwyno a chadarnhau cofnodion cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd ar 3ydd o Chwefror 2022. (Y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd lofnodi ei bod yn gywir).

3. Llofnodi cadarnhâd taliadau BACS mis Chweror 2022 – (Roedd y Clerc wedi trefnu i'r Cadeirydd ei llofnodi ar 03.03.2022).

4. **Datgan buddiant personol**, - (roedd y Clerc wedi anfon copi electroneg at bawb cyn y cyfarfod).

**Cynghorydd Tegid Jones** – datgan buddiant personol rhif:-
6(c) Cais Cynllunio Tafarn y Plu oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr Menter y Plu.

**Cynghorydd Anwen Jones** – datgan buddiant personol rhif:-
6(c) Cais Cynllunio Tafarn y Plu -oherwydd bod aelod o'r teulu yn gadeirydd Menter y Plu.

**Cynghorydd Naomi Jones** – datgan buddiant personol rhif:-
6(c) Cais Cynllunio Tafarn y Plu oherwydd bod ei gwr yn gadeirydd Menter y Plu

**Cynghorydd Aled Evans** - datgan buddiant personol rhif:-
6(c) Cais Cynllunio Tafarn y Plu oherwydd ei fod yn gyfarwyddwr Menter y Plu.

**Cynghorydd William Ifor Hughes** - datgan buddiant personol rhif:-
6(b) Cais ariannol Hufenfa De Arfon, Rhydygwystl oherwydd ei fod yn ymwneud â'r Hufenfa.

5. **Materion gan Cyngor Gwynedd**

Rhaglen waith am y mis nesaf ond heb nodi dyddiad.

| Rhif y Ffordd | Lleoliad Gwaith | Disgrifiad o'r Gwaith | Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| A497 | Llanystumdwy | Newid colofnau golau stryd | Goleuo |

6. **Cyngor Gwynedd – ceisiadau cynllunio yn y gymuned**

a) **Cais rhif:C22/0059/41/LL - Hafan Y Mor, Pwllheli**, -addasiadau i wyneb siop a chyfnewid to gwydr am do gwastad. **Dim sylwadau.**

b) **Cais rhif:C22/0065/40/LL – Hufenfa De Arfon, Rhydygwystl, Chwilog** – cais ól-weithredol i gadw dau gynhwysydd ar y safle at bwrpas storfeydd a swyddfeydd. **Cefnogi**.

c) **Cais rhif: C22/0027/41/LL -Tafarn Y Plu, Llanystumdwy** - Dymchwel estyniad unllawr to fflat modern a chodi estyniad newydd unllawr to 'pits' gyda addasiadau mewnol ac allanol i'r adeilad. **Cefnogi**.

7. **Gronfa Cymunedau Mentrus**, - Swyddog Cefnogi Cymunedau, Ardal Dwyfor, Cyngor Gwynedd yn egluro fod y gronfa wedi ei sefydlu er mwyn cynyddu gallu cymunedau i arwain, mentro a chyflawni, ac fe all Cynghorau Cymuned a Thref wneud cais i'r gronfa yma. Mae'r gronfa yma yn cynnig cyfleoedd i gynghorau a grwpiau cymunedol i ymgeisio am arian refeniw ar gyfer hyfforddiant neu ddatblygu cynlluniau, a'r dyddiad cau i geisiadau 28.02.2022.
Fe wnaeth y Clerc holi gan egluro fod 2 gapel yn yr ardal yn dathlu 100 mlwyddiant eleni, sef Capel Pencaenewydd a Chapel y Beirdd.
Holwyd tybed a fyddai'n bosib cael hysbysfwrdd efallai yn sôn am hanes y capeli, fel safle treftadaeth.
Gofynwyd hefyd fyddai'n bosib defnyddio'r gronfa yma i gael efallai mwy o arwyddion ar groesffyrdd yn yr ardal, er mwyn cadw'r enwau lleol y fyw, a'i defnyddio ar lafar.

Dywedwyd mai pwrpas y gronfa oedd ar gyfer **gwaith datblygol sef creu cynllun ar gyfer syniadau newydd yn hytrach na gwaith fisegol, neu i wireddu'r prosiect**.
Felly ni fyddai'n bosib defnyddio'r gronfa i dalu am wneud y gwaith ar yr hysbysfwrdd o flaen y ddau gapel, nag ar arwyddion. **Derbyn er gwybodaeth.**

8. **'Ardal Ni 2035'**- canlyniadau Cam 1 wedi cael ei anfon at bawb, yn dilyn 150 o sgyrsiau ar draws 13 ardal adfywio drwy Wynedd. Fel ail ran i'r prosiect, byddant yn holi barn trigolion lleol. **Derbyn**.

9. **Lwfansau Cynghorydd rhwng 1af Ebrill 2021 – 31 Mawrth 2022**- Y Clerc wedi derbyn pob ffurflen yn nol ac nid oedd neb eisiau cymeryd y lwfans.
Mae'r lwfans a gynnigir yn £150.00 eto am y flwyddyn 01.04.2022 ymlaen, oherwydd fod incwm neu wariant y Cyngor yn is na £30,000.00 rhwng 01.04.2021-31.03.2022. **Derbyn**.

10. **Etholiadau Cyngor Cymuned 05.05.2022**
Y Clerc heb dderbyn unrhyw wybodaeth gan Adran Etholiadol Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r etholiadau, felly wedi ei ffonio nhw i holi. Dywedwyd ei bod nhw yn y broses o anfon pecynnau at bob Clerc o fewn yr wythnosau nesaf gan y Comisiwn Etholiadol, gyda phapurau enwebu ar gyfer pob Cynghorydd. Dywedodd bydd angen ei cyflwyno yn nol yn ystod y cyfnod rhwng 21.03.2022 – 05.04.2022. Bydd angen ei cwblhau a'i dychwelyd i'r Clerc yn brydlon er mwyn iddynt gyrraedd ar amser. **Derbyn.**

**Materion yn y gymuned**.

11. **Llanystumdwy**
a) **Parcio gyferbyn tai Maen y Wern ac i fyny am Tŷ Newydd** – problem fod trigolion sydd yn byw yn y tai yn parcio ar y lon gul yn ei gwneud yn anodd i gerbydau basio. Y Clerc wedi anfon llythyr at Cyngor Gwynedd yn gofyn am y posiblrwydd o gael llinnellau melyn yno.
**Dal heb gael ateb.**

12. **Rhoslan/Ynys**

a) **Gwinllan Rhos Ddu** – Clerc wedi ffonio Adran Gorfodaeth Cynllunio ar 23.02.2022, i holi am y gweithgaredd oedd yno, fe wnaeth gadarnhau y byddai'n trefnu i fynd yno ar ymweliad safle, ac nad oeddent wedi derbyn cais cynllunio ar gyfer y safle. **Derbyn**.

b) **Gwinllan ger Betws Fawr** – ymholiad fod mynedfa newydd yno, a llwythi lawer o 'rwbel' yn cael ei gario yno ers dyddiau, i wneud lon a sylfaen yng nghanol y goed. Clerc wedi ffonio a sgwennu at Adran Gorfodaeth Cyngor Gwynedd i wneud ymholiadau, ac roeddent am fynd yno i weld. **Derbyn**.

13. **Chwilog**
a) **Hen 'londri', Afonwen** – pryder ynglŷn â beth sydd yn digwydd yno, oherwydd mae yna hen danciau 'disel'a phethau felly yn y ddaear yno ac mae angen bod yn ofalus iawn hefo unrhyw dyllu. **Clerc wedi siarad hefo'r Adran Gorfodaeth, nid ydynt wedi derbyn unrhyw gais, felly am edrych i mewn i'r mater.**

c) **Sbwriel ar ochr y ffordd rhwng y Ffôr a Chwilog**. Clerc wedi anfon llythyr at yr Adran berthnasol ond heb dderbyn ymateb eto.

d) **Lón Goed, ger Cefn Coed, Chwilog** – derbyniwyd cwynion fod cyflwr y darn yma o'r lon, yn mynd i fyny o Chwilog Bach yn ofnadwy o fwdlyd, ac nad oedd yn bosib i gerddwyr fynd ar ei hyd. Deallir fod tractorau yn gwneud gwaith i fynedfeydd y caeau ers tro. **Y Clerc, a'r Cyngorydd Aled Lloyd Evans wedi cyfeirio'r mater i Cyngor Gwynedd.**

14. **Pencaenewydd/Sardis**
a) **Clwy coed onnen** 'ash die back' – ger giat Fferm Pencaenewydd, giat Tanllyn i Drofa, a groeslon Lodge Trallwyn. **Clerc wedi cysylltu hefo Cyngor Gwynedd i'w hysbysu**.

b) **Safle pasio, 'lay by'-** y Clerc wedi gofyn wrth Cyngor Gwynedd am fwy o safleoedd pasio i gerbydau rhwng Sardis i Pensarn, Mynachdy Bach ac i'r tro am Llanaelhaearn. **Y Clerc wedi derbyn yr ymateb yma ar yr 02.03.2022 gan y Rheolwr Traffig, Cyngor Gwynedd.**
*"Er rydym yn llwyr ddeall eich pryderon parthed i'r uchod, yn anffodus, does gan y gwasanaeth hwn ddim yr adnoddau i gyflawni math yma o welliannant i'n rhwydwaith. Mae'n ddrwg iawn gen i nad oes modd i ni eich helpu yn yr achos hwn".* **Gofynwyd i'r Clerc bwyso arnynt eto, gan nodi fod cryn dipyn o brysurdeb yn mynd nol a blaen o Pensarn.**

c) **Pont y Bryn/Ffynnon Cadfa** – ymholiad ynglŷn â phryd mae'r gwaith o atgyfnerthu'r bont yn mynd i gael ei wneud. **Y Clerc yn disgwyl ymateb**.

15. **Llangybi**
a) Barbio bler rhwng Bwlch Ffordd i fyny at Pencaenewydd, Tŷ Newydd i Felin Plas Du, (brigau drain duon) – ddim yn cael ei glirio a cheir yn cael trafferth pasio ar hyd y lon. **Disgwyl ymateb.**

16(a ). **Canolfan Iechyd Cricieth**

Yn dilyn y cyfarfod diwethaf, gofynwyd i'r Clerc anfon llythyr arall at Reolwr y Ganolfan Iechyd i holi am y cwestiynau isod (heb gael ateb eto):-

- Fod cryn gwyno ymhlith trigolion yn y gymuned nad oedd meddygon sefydlog yng Nghricieth.

- Nodwyd mai gwasanaeth gan ddoctoriaid 'locum' sydd yno, ond bod un trethdalwr wedi gweld 4 gwahanol o fewn cyfnod o tua 6 wythnos. A oes bwriad i geisio cael doctoriaid sefydlog yno?
- Nodwyd byddai'n well cael fferyllfa gymunedol yn hytrach na defnyddio siop breifat.
- Nodwyd nad oedd gwefan Hwb Iechyd Eifionydd wedi cael ei ddiweddaru i son am y newidiau yma, sef fod y fferyllfa oedd o fewn y ganolfan wedi cau.
- Datganwyd hefyd bryder fod son fod 'Pennant Medical Services', yn cael ei gynnal o'r ganolfan, a tybed beth yw ei ról nhw o fewn y Ganolfan yng Nghricieth.

Hefyd, y Clerc wedi bod yn y fferyllfa, ac wedi cael gwybod y bydd gwasanaeth danfon 'presgripsiwn' i gleifion yn cychwyn yn fuan o'r feryllfa i bobl fregus sydd yn methu mynd yno ei hunain, a bydd hyn o fantais mawr i'r cleifion sydd yn cael trafferth nol ei meddyginiaeth fel ag sydd ym Mhwllheli.
Y Clerc wedi derbyn ebost gan Glerc Cyngor Dolbenmaen yn dweud bod ei cynghorwyr hwythau wedi derbyn cwynion am y gwasanaeth a geir gan Hwb Eifionydd. **Aros am ymateb.**

**b. Fferyllfa Pwllheli** – problemau hefo pobl sydd yn byw tu allan i'r dref yn mynd i nol ei meddyginiaeth, ond yn darganfod nad yw ar gael, felly'n gorfod mynd yno eto ar ddiwrnod arall i'w nol. Mae hyn yn anhwylus, ac yn creu costau. **Y Clerc wedi cysylltu hefo'r fferyllfa, a dywedwyd ei bod yn cynnig gwasanaeth danfon prescripsiwn i bobl oedranus, sydd heb gymorth i nol ei meddyginaeth. Hefyd mae angen rhoi wythnos o rybudd cyn cael y pethau, ac mae problem wedi bod yn ddiweddar hefo cael rhai meddyginiaethau. Y peth gorau fyddai i ffonio'r fferyllfa i wneud yn siwr fod pob dim wedi cyrraedd, cyn mynd yno. Derbyn.**

17. **Gwaith ar y llwybrau, Ebrill 2022 ymlaen**.

a. Llwybr swyddogol o Ffynnon Cybi i ben Garn Bentyrch, un toriad.
b. Llwybr dan bont y rheilffordd i'r traeth yn Afonwen, dau doriad.
c. Llwybr heibio Ynysgain Bach hyd at bont y rheilffordd, dau doriad.
ch. Llwybr o'r ffordd fawr i fyny at fythynnod Tŷ Newydd, dau doriad.
d. Llwybr Clawdd Llanw o Bontfechan dros y rheilffordd am Ty'n Morfa, dau doriad.
dd. Ceg y llwybr ar hen ffordd Abercin, ochr y pentref i'r ffordd osgoi.
e. Cadw safle bedd D. Lloyd George yn daclus yn ystod y tymor.

f. **Maenywern, Llanystumdwy** – gwaith clirio tir y Cyngor ger y bont ac ar hyd y wal i fyny tuag at y Bedd.

***Y Clerc i drefnu hysbysebu yr uchod ar y wefan, Y Ffynnon a'r hysbysfyrddau i gael prisiau, hefo dyddiad cau 30.04.2022, er mwyn ei trafod yn y cyfarfod mis Mai.***

ff. **Cytundeb torri Cae Chwarae Llangybi** (*cytundeb 3 mlynedd eisioes wedi ei wneud rhwng 2021-2023).*

g. **Glanhau llochesi bws** – cytundeb eisioes wedi ei wneud llynedd tan 31.03.2023.

18. **Materion Ariannol**
Adroddiad Ariannol gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol.
Roedd y Clerc wedi anfon ebost at y cynghorwyr i gyd cyn y cyfarfod, drwy gynnwys dogfen 'excel'o'r sefyllfa ariannol hyd at 03.03.2022, ac arolwg o'r gwariant tebygol erbyn 31.03.2022. Mae hyn yn cadw golwg manwl ar y gwariant sydd eisioes wedi ei wneud. Y Clerc wedi mynd a'r biliau i gyd at y Cadeirydd i'w llofnodi a'i awdurdodi o flaen y cyfarfod. **Derbyn**.

19. **Archwiliad allannol – cyfrifon 2020 - 2021.** – Y Clerc dal heb dderbyn ymateb gan yr Archwilwyr Allanol eto, ond ar ol cysylltu hefo Un Llais Cymru eto dywedwyd fod pob cyngor arall drwy Gymru yn yr un sefyllfa, ac y byddent yn cael ei dychwelyd dros yr wythnosau nesaf.

20. **Archwilio mewnol** – y Clerc wedi derbyn cadarnhad gan Adran Archwilio Cyngor Gwynedd yn dweud ei bod yn fodlon gwneud yr archwilio mewnol am y flwyddyn 01.04.2021 - 31.03.2022.

21. **Costau cyfrif banc HSBC** – ers 05.11.2021 mae'r banc yn codi 'ffi am gynnal y cyfrifon' o £5.00 y mis ar y cyfrif cyfredol a'r cyfrif lle mae'r taliad Lightsource yn cael ei dalu. Mae'r Clerc wedi bod yn holi yn y banc i weld os oedd rhaid ei talu, ond dywedwyd fod hyn wedi bod ar y gweill ganddynt ers blynyddoedd a bydd pob banc arall yn gwneud yr un fath yn y dyfodol agos. Bydd hyn yn gost o £120.00 y flwyddyn rhwng y ddau gyfrif.

Y Clerc wedi cysylltu hefo Cwmni Lightsource, i egluro'r sefylfa, gan ofyn os oedd byddent yn fodlon anfon yr un taliad blynyddol atom ni, i'n prif gyfrif cyfredol o hyn ymlaen, gellir wedyn gau'r cyfrif arall, a chadw cofnod arwahan i'r arian yma. **Heb dderbyn ateb ganddynt eto.**

22. **Cais am ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned** - Clerc wedi derbyn cadarnhâd ein bod wedi derbyn ad-daliad arian cynnal a chadw llwybrau o fewn y gymuned o £417.80 eleni (sef yr un ffigwr a llynedd). Mae'r trefniant ad-dalu wedi cael ei gyfyngu i lwybrau categori 1 a 2.

23. **Diffibileiddiwr yn Rhoslan a Chapel y Beirdd** – y Clerc wedi derbyn ateb gan yr Adran Gwaith Stryd a Goleuo, Cyngor Gwynedd yn dweud ei bod am drefnu i osod polyn a thrydan i'r 'diffib.'newydd ger y lloches bws yn Rhoslan, byddai yn cadarnhau pryd fydd y gwaith wedi cael ei wneud.

24. Llythyrau/e-byst yn diolch am gyfraniadau ariannol gan y Cyngor Cymuned:-

1. Clwb Ffermwyr Ifanc Llangybi.
2. Mynwent Newydd Llanystumdwy
3. Mynwent Capel Helyg, Llangybi
4. Mynwent Rydd ac Anenwadol Chwilog
5. Clwb Peldroed Llanystumdwy
6. Cylch Meithrin Llangybi
7. Cylch Meithrin Chwilog
8. Menter y Plu
9. O Ddrws i Ddrws
10. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru
11. Tŷ Gobaith *(heb gael ei manylion banc eto i wneud taliad).*
12. Clwb Snwcer Chwilog

25. **Dim** t**aliadau biliau** angen cael ei gwneud yn dilyn y cyfarfod 03.02.2022:

26. Cyflog mis Chwefror 2022 y Clerc i'w rannu rhwng y Clerc a Chyllid a Thollau EM.

| **Enw/Rheswm** | Swm<br>£ | Cyfanswm Taliad net<br>£ | Taliad BACS:-<br>£ |
|---|---|---|---|
| Cyflog sylfaenol y Clerc, Chwefror 2022<br>35 awr y mis x £11.05 = £386.75 | 386.75 -<br>Llai treth £77.40<br>= £309.35 | **<u>309.35</u>** | **<u>309.35</u>** |
| Cyllid a Thollau EM<br>Treth ar enillion y Clerc Chwefror 2022 | 387.00 x 20% = £77.40 | **<u>77.40</u>** | **<u>77.40</u>** |
| Costau'r Clerc<br>Chwefror 2022 | £16.66 | **<u>16.66</u>** | **<u>16.66</u>** |

Cytuno bydd y cyfarfd nesaf ar nos Iau 07.04.2022.

**<u>It is possible to get an English translation of any minute, please contact the Clerk.</u>**